

PENNOD 3: IOAN Y CEFNDER

Malachi 3. 1, 5

Wele, yr wyf yn anfon fy nghennad i baratoi fy ffordd o'm blaen; ac yn sydyn y daw'r Arglwydd yr ydych yn ei geisio i'w d; y mae cennad y cyfamod yr ydych yn hoff ohono yn dod, medd Arglwydd y lluoedd Wele fi'n anfon atoch Elias y proffwyd cyn dod dydd mawr ac ofnadwy'r Arglwydd.

Ar y golwg cyntaf, mae'n ymddangos yn ryfedd bod Luc yn dechrau ei efengyl nid gyda gwybodaeth am Iesu, ond am ei gefnder, Ioan bar Sachareias, a adnabyddwyd wedyn fel "Y Bedyddiwr." Yr hyn a wnâ Luc yw gosod geni'r rhagflaenydd o flaen geni'r Meseia. Mab Sachareis yw Ioan, sy'n offeiriad, disgynnydd Aaron, ac Elisabeth, hefyd un o ddisgynyddion Aaron. Felly, disgynnydd Aaron yw Ioan trwy'r ddau riant, a'r ddau yn "ymddwyn yn ddi-fai yn ôl holl orchymynion ac ordeiniadau'r Arglwydd,"¹⁷ Serch hynny, mae'n debyg iddynt ddiodeff dirmyg am fod Elisabeth yn ddiffwrwyth a'r ddau yn hen.

Erbyn hyn roedd yna rhyw ugain mil o offeiriaid, cymaint fel iddynt gael eu trefnu mewn dau ddeg phedwar adran, a phob adran yn cael cyfle i weinyddu yn y Deml ond yn ystod un wythnos pob blwyddyn. Penderfynwyd pa offeiriad o'r adran fyddai'r gweinyddu yn aberthau'r bore a'r hwyr gan goelbren. Y canlyniad oedd na chafodd llawer o offeriaid y fraint o gwbl yn ystod eu hoes a dim ond unwaith y byddai'r rhai ffodus yn cael gwneud.

Ond ar achlysuron arbennig megis gwyliau'r Pasg, Pentecost a Thabernaclau byddai'r holl offeiriaid yn dod ynghyd yn y Deml. Byddai'r rhan fwyaf ohonynt yn byw mewn trefi cyfagos i Jerwsalm. Dywedir mai Ein Carem, tua saith cilometer (4.6 milldir) o Jerwsalem oedd eu cartref.

Eiddo Luc yw'r dyddiad am yr hyn a ddigwyddodd: "Yn nyddiau Herod, brenin Jwdea..." Ar ddechrau'r hanes mae Sachareias ar ddyletswydd yn y Deml; hawdd dychmygu y wefr wrth iddo gael y fath fraint o aroglarthu'r allor yn y sanctaidd le, agored i offeiriaid yn unig; tu ôl i'r allor oedd y Sancteiddiolaf Le, lle byddai neb ond yr archoffeiriad yn cael mynd, a hynny ar Yom Kippur (Dydd y Cymod) yn unig. A'r holl gynulleidfa ar weddi, dyma Sachareias yn dod i fewn i'r Sanctaidd Le a'r thuser yn ei law, ond ni cheir cyfle i ddilyn y drefn arferol. Saif rhywun ar yr ochr dde i'r allor, cennad yr Arglwydd. Llanwyd yr offeiriad ag arswyd gan ei bresenoldeb.

Dywedir wrth Sachareias i'w weddi gael ei chlywed a bod ei wraig i genhedlu ar fab, sydd i dderbyn yr enw Ioan. Yr awgrym yw bod calon yr offeiriad yn gweddio am fab wrth iddo adrodd geiriau traddodiadol y litwrgi Iddewig. "Fe gei lawenydd a gorfoledd, a bydd llawer yn llawenychu o achos

ei enedigaeth ef.”¹⁸ Rhoddodd addewid, “mawr fydd ef gerbron yr Arglwydd.” Er nas galwyd loan yn Nasaread, ¹⁹nid yf win na diod gadarn byth.” loan fydd y negesydd addawyd gan Malachi, “yn llawn o’r Ysbryd Glân. Mab Sachareias fydd yr ail Elias, “yn llawn nerth ac ysbryd” y mwyaf o’r proffwydi. Daw’r neges i ben gyda dyfyniad uniongyrchol o frawddeg olaf Llyfr Malachi: “i droi calonnau rhieni at eu plant” ond ychwanegodd Luc: “ac i droi’r anufudd i feddylfryd y cyfiawn, er mwyn darparu i’r Arglwydd bobl wedi eu paratoi.” Gellir meddwl mai bwrddwn y neges yw y bydd cymod rhwng rhieni [Iddewig] a’u plant. Ond dywed Luc fod y rhan fwyaf o Iddewon yn troi yn erbyn eu Meseia ond bod llawer o genedlddnyion, plant newydd Abraham, yn ei dderbyn.²⁰

Mae hyn yn ormod i Sachareias, sy’n anabl i gredu’r hyn a glyw; rhaid wrth brawf. Saif gyda’i gydwladwyr sydd bob amser yn gofyn am arwydd i brofi bod rhywbeth yn wir.²¹ Ateb y negesydd yw mai ef yw Gabriel, sy’n sefyll gerbron Duw,” ac a anfonwyd i ddod â’r newyddion da iddo. Peth annerbynniol yw ei anghrediniaeth, yn arbennig yn y fangre sanctaidd honno, ac yntau’n cyflawni ei alwedigaeth offeriadol. Cafodd yr offeiriad yr arwydd y gwnaeth gais amdani: “byddi’n fud a heb allu lefaru hyd y dydd y digwydd hyn, am i ti wrthod credu fy ngeiriau, geiriau a gyflawnir yn eu hamser priodol.”

Yn y cyfamser mae’r gynulleidfa yn aflonyddu oherwydd absenoldeb yr offeiriad cyhyd ger yr allor. Oherwydd mae’n dychwelyd ond yn methu â chyhoeddi Bendith Aaron na dweud unrhywbeth arall a hwythau’n sylweddoli iddo gael gweledigaeth. Daw’r stori i ben yn ddigon rhyddeithol wrth i Luc ddweud yn syml iddo fynd adref gan fod ei wythnos o wasanaeth wedi dod i ben.

Gartef y mae Elisabeth; ni roddwyd neges angylaidd iddi hi ond mae’n beichiogi, gan dreulio pum mis o’r neilldu. Rhaid mai cadw o olwg y cymdogion sydd y tu ôl i hyn, gan ni cheir unrhyw gyfeiriad at encilio nac yn y Ddeddf na mewn defod. Yn ei chweched mis mae Mair ei chyfnither yn clywed am ei chyflwr.

O’r diwedd daw’r dyddiau i ben a genir y plentyn a’r cymdogion yn rhannu ei llawenydd. Ar yr wythfed dydd rhaid enwaedu’r bachgen a rhoi enw iddo. Dymuna’r cymdogion ei enwi ar ôl ei dad ond mynnodd mai loan oedd ei enw. Amneidia’r cymdogion ar Sachareias i ymofyn ei ddymuniad ac ysgrifenna ar lechen, “Nage, loan yw ei enw i fod... ac ar unwaith rhyddhawyd ei enau a’i dafod, a dechreuodd lefaru a bendithio Duw.” Nid rhyfedd i ofn ddod ar y cymdogion a gofyn, “Beth gan hynny fydd y plentyn hwn?”

Llanwer Sechareias ag ysbryd proffwydo a’i eirau yn cael eu mabwysiadu fel un o emynau mawr yr Eglwys, sef y *Benedictus*. Hon yw’r gyntaf o dair cân fawr sydd i’w gweld yn hanes Luc o Eni’r Iesu (Gwelir Pennod 10). Mae neges y gân hon yn ddigon clir: i Sachareias, caiff addewid Duw i’w bobl ei chyflawni. Gwyddom lai am flynyddoedd cynnar loan Fedyddiwr nag hyd yn oed am ei

gefnder Iesu. Pa yrfa tybed rhagwelodd y rhieni hen yma am eu mab bach? Gyda thad yn offeiriad a mam yn perthyn i linach offeiriadol digon hawdd iddynt ddychmygu'r offeiriadaeth i loan. Offeiriad, ond offeiriad arbennig iawn, yn cyhoeddi dyfodiad yr Arglwydd. Byddai loan yn ennill miloedd yn ôl i ffydd eu tadau gydag angerdd a rhexreg fel eiddo Elias ond cafodd y mab ei arwain ar hyd ffordd gwbl gwahanol. Mae'n debyg, fel mab rhieni yn eu henaint, iddo gael ei amddifadu yn gynnar yn ei blentyndod a'i fagwraeth yn nwylo pobl eraill – ond pwy?

Cred rhai iddo fyw mewn cymuned Essenaidd rhywbryd. Enwad Iddewig oedd hwn, wedi torri ymaith o grefydd yr offeiriad Sadocaid.²² Ffynnodd o'r ail ganrif cyn Crist hyd at y ganrif gyntaf oed Crist. Roedd enwad yr Esseniaid yn llai ei rif na'r Phariseaid a'r Sadwceaid ac yn biwritanaidd, yn dilyn bywyd asetig tebyg i fywyd mynachlogydd Celtaidd gan gofleidio tlodi a throchi dyddiad mewn dŵr. Roedd yna gymunedau ohonynt mewn dinasoedd ac awgrymir i Iesu gadw ei Basg olaf mewn tŷ Essenaidd ar Fynydd Seion. I'r Esseniaid roedd addoli'r Deml a'r offeiriad oedd yn ei arwain yn gwbl lygredig. Ymwrthod wnaethant a'r cyfan, gan gynnwys Dydd y Pasg a symudwyd ganddynt o Ddydd Gwener hyd Dydd Mawrth, a'r dathliad wrth gwrs ar y noson gynt. Cwmrân oedd eu cymuned fwyaf adnabyddus, lle darganfyddwyd Sgroliau'r Môr Marw yn 1947. Saif ei adfeilion mewn man anletygar iawn yn anialwch Jwdea, heb fod ymhell o'r Môr Marw. Credir mai yma bu loan hyd nes iddo ddod at yr Iorddonen, ddim ymhell i ffwrdd, i ddechrau ar ei weinidogaeth o baratoi ffordd y Meseia. Y mae yna beth tebygrwydd rhwng gweinidogaeth y Bedyddiwr ac arferion yr Esseniaid. Daeth allan o'r anialwch i gyhoeddi ei neges, gan wisgo fel asetig. Ei fwyd oedd locustiad a mêl gwyllt (ym Mhalesteina rhoddyd i mi goden debyg i ffeuen lydan sy'n tyfu'n wyllt ym Mhalesteina ac y mae gennyf gartref o hyd – 'locust' yw ei enw). Neges loan oedd bod dydd yr Arglwydd gerllaw a'r Meseia ar ei ffordd, gan rhybuddio'r bobl o'r lliid dwyfol oedd yn agos. Galwodd ar ei wrandawyr i edifarhau a chael eu bedyddio ganddo yn afon yr Iorddonen fel arwydd ddefodol o lanhad o'u pechodau.

Daeth Iesu i'r fan gan sefyll gyda'r rhai oedd yn ceisio'r bedydd hwn o edifeirwch. Hyn a wnaeth nid er ei fwyn ei hunain ond i gyd-sefyll gyda'r rhai oedd mewn angen ediferhau ac ar ran y rhai oedd yn methu dod neu yn gwrthod. Gweithred ar ran y ddynoliaeth gyfan oedd hon gan y Crist.

Flangellodd loan y tyrfaoedd gyda'i eiriau, a'i ymosodiadau ar y sefydliad crefyddol fel "epil gwiberod" yn cyd-fynd â chred yr Esseniaid. Torrodd ar draws heddwch y drefn sefydliedig a thalodd y pris am hynny. Cafodd ei roi mewn carchar gan y brenin Herod Antipas gan aros yno tan ei ddiennyddio. Bu'n disgwyl i'r un i ddod ar ei ôl gyhoeddi'r un neges o farn. Pan oedd yn y carchar clywodd am natur gweinidogaeth ei gefnder a hyn yn ei ddrysu. Danfonodd rai o'i ganlynwyr at Iesu i ofyn, "Ai ti yw'r un sydd i ddod,

neu am rywun arall yr ydym i ddisgwyl?” Gweithred oedd ateb cyntaf Iesu: “Y pryd hwnnw iachaodd ef lawer o afael afiechydon a phlâu ac ysbrydion drwg, a rhoes eu golwg i lawer o ddeillion. Ac atebodd ef hwy, ‘Ewch a dywedwch wrth loan yr hyn yr ydych wedi ei weld ac wedi ei glywed. Y mae’r deillion yn cael eu golwg yn ôl, y cloffion yn cerdded, y gwahangleifion yn cael eu glanhau a’r byddariaid yn clywed, y meirwon yn codi, y tlodion yn cael clywed y newydd da. Gwyn ei fyd y sawl na ddaw cwmp iddo o’r hachos i.’”²³ Wedi iddynt fynd, manteisiodd Iesu ar gwestiwn loan i osod allan i’r dorf fanifesto ei Deyrnas. Aeth ymlaen wedyn i sôn am y Bedyddiwr, proffwyd ac asetig, gan ei alw yn gennad Duw yn paratoi’r ffordd i’r Meseia, dyfyniad o lyfr Malachi 3.1 (y gair yn yr hen gyfieithiad Groeg oedd angelos neu angel.²⁴ Ym Mathew 11. 13-15 cyfeiria ato fel Elias: “Hyd at loan y proffwydodd yr holl broffwydi a’r Gyfraith, ac os mynnwch dderbyn hynny, ef yw Elias sydd ar ddod, gan ddyfynnu Malachi 04.05.

Arglwydd, danfonaist loan Fedyddiwr i alw dy blant yn ôl atat. Rwyf yn ein galw ni yn ein dydd ni i ddwyn tystiolaeth i ti. Boed i’th Ysbryd ein harwain fel trwy ein gweithredoedd, ein geiriau a’r hymagwedd, a’r ffordd o gyd-fyw fel canlynwyr Iesu, y byddwn yn herodrion dy ddyfodiad; trwy Iesu Grist ein Harglwydd.

Cwestiynau i’w hystyried neu i’w trafod

A oes yna le yn yr Eglwys heddiw i ffordd y Bedyddiwr o fyw?

A ydyw’r eglwysi wedi dewis dysgeidiaethau Iesu bob tro yn hytrach nag eiddo loan Fedyddiwr?

Ymhle y gwelir gwaith gwardigol Crist heddiw?

Beth yw’n rhan ni?